



Addysg gynnar a gofal • Early education and care

Sir y Fflint

Cyflwyniad

Er mwyn helpu rhieni sy'n gweithio i gael mynediad i ofal plant fforddiadwy, sydd ar gael ac yn hygyrch, gall pob teulu cymwys wneud cais am Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru, Sir y Fflint. Nodau'r Cynnig yw cynyddu'r twf economaidd, mynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau.

Y Cynnig

Bydd y cynnig yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant ar gyfer plant 3 a 4 oed i rieni sy'n gweithio, am gyfnod o hyd at 48 wythnos y flwyddyn, mewn lleoliadau o ddewis y rhieni, yn amodol ar argaeledd. Caiff yr amser tymor ei drin fel 39 wythnos, sy'n golygu y caiff y 9 wythnos pro-rata arall o'r Cynnig 48 wythnos ei drin fel amser nad yw'n amser tymor neu'n 'ddarpariaeth gwyliau'. Yn ystod y 9 wythnos o wyliau, bydd plant cymwys yn cael hyd at 30 awr o ofal plant, pro-rata.

Bydd plant i rieni cymwys yn cael gofal plant wedi'i ariannu gan y llywodraeth, o'r tymor sy'n dilyn pen-blwydd y plentyn yn dair oed, nes mis Medi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bedair oed.

Bydd pob rhiant, neu gyplau sy'n byw gyda'i gilydd, mewn cartrefi sy'n gweithio o leiaf 16 awr neu fwy ar y cyflog byw cenedlaethol neu'r isafswm cyflog cenedlaethol neu uwch, yn gymwys ar gyfer y Cynnig.

Esemptiadau Statws Cyflogaeth

Er ei bod yn bosibl i rieni beidio â bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig yn seiliedig ar eu statws cyflogaeth, fel y gwelir uchod, efallai y byddan nhw'n gymwys ar gyfer y Cynnig o dan yr esemptiadau statws cyflogaeth canlynol:

- Mae un rhiant yn y cartref yn ennill cyflog ac mae gan un rhiant gyfrifoldebau gofalu sylweddol ar sail budd-daliadau penodol a dderbynnir am ofalu.
- Mae'r ddau riant yn y cartref yn ennill cyflog ond mae un neu'r ddau riant yn absennol o'r gwaith dros dro ar gyfnod rhiant, mamolaeth, tadolaeth neu gyfnod mabwysiadu.
- Mae'r ddau riant yn y cartref yn ennill cyflog ond mae un rhiant yn absennol o'r gwaith dros dro ar dâl salwch statudol.
- Mae un rhiant yn ennill cyflog ac mae un yn anabl neu'n methu â gweithio ar sail derbyn budd-daliadau penodol.



Y Cynnig Gofal Plant i Cymru, Sir y Fflint

Bydd y Cynnig Gofal Plant ar gael i rieni sy'n gymwys yn ardaloedd ledled Sir y Fflint i gyd. Bydd hyn yn gyfle i roi'r cynnig ar brawf mewn ardaloedd o gyflogaeth isel ac uchel, ar draws rhwydweithiau teithio i'r gwaith, gan gynnwys teithio i ardaloedd y tu allan i Gymru, ac mewn amrywiaeth o leoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. Bydd yn gyfle i brofi gallu a galw o ran gofal plant ynghyd â sut y mae pethau'n cyd-fynd â darpariaeth y Cyfnod Sylfaen a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Taliad

Caiff taliad am ofal plant a ddarperir drwy'r Cynnig ei wneud yn uniongyrchol i'r darparwyr. Ni ofynnir i rieni dalu am eu horiau Cynnig Gofal Plant ymlaen llaw. Mae'r Cynnig Gofal Plant newydd wedi'i anelu at gefnogi rhieni sy'n gweithio.

Wythnosau Gwyliau

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn nodi pa rai o'r 14 wythnos nad ydynt yn ystod y tymor sydd wedi'u dynodi fel y 9 wythnos o ddarpariaeth gwyliau, er mwyn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer rhieni sydd mewn gwahanol swyddi, megis y rhai sy'n gorfod gweithio dros y gwyliau haf neu'r Nadolig. Fodd bynnag, ni fyddai modd i rieni 'ymestyn' eu hawl ar draws wythnosau neu drosglwyddo oriau heb eu defnyddio ar draws wythnosau. Mae'r 9 wythnos o ddarpariaeth gwyliau wedi'u dyrannu ar sail pro-rata yn ôl faint o dymhorau y mae'r plentyn yn defnyddio'r Cynnig.

Tabl hawl i 9 wythnos o wyliau pro-rata:

Nifer y tymhorau y defnyddir y Cynnig Gofal Plant	Nifer yr Wythnosau Gwyliau a geir
Tri thymor	9 wythnos
Dau dymor	6 wythnos
Un tymor	3 wythnos

Dewis Rhieni

Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau i'r cynnig fod yn glir ac yn hawdd i rieni a darparwyr gael mynediad ato. Dylai hefyd ganiatáu i rieni barhau i ddefnyddio'r darparwyr sydd fwyaf addas ar gyfer eu hamgylchiadau, yn amodol ar argaeledd, cyhyd â'u bod wedi cofrestru ac AGC neu gyfwerth yn Lloegr ac felly'n cyrraedd y safon ofynnol genedlaethol ar gyfer gofal plant cofrestredig.

Gallwch wirio a ydych yn gymwys ar gyfer y Cynnig a chael ffurflen gais ar-lein ar wefan Cyngor Sir y Fflint, sef: www.flintshire.gov.uk/childcareoffer.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Cynnig Gofal Plant, mae croeso i chi gysylltu â **Tîm Cynnig Gofal Plant** ar **01352 703930**.

